Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 27.04.2021

## Llacio cyfyngiadau COVID-19 – diweddariad

Os bydd y gwelliannau a welwyd yn y sefyllfa iechyd cyhoeddus yn parhau ar ôl 3 Mai 2021, bydd modd i'r Llywodraeth newydd ystyried symud fesul cam rhwng y lefelau rhybudd y darperir ar eu cyfer yn y Cynllun Rheoli Coronafeirws a ddiweddarwyd. Ar y sail hon, bydd paratoadau'n cael eu gwneud i alluogi Llywodraeth newydd ar ôl etholiadau'r Senedd i symud i lefel rhybudd dau ddydd Llun 17 Mai 2021. Bydd hynny'n dibynnu ar yr amodau iechyd y cyhoedd yn nes at yr amser.

Mae lefel rhybudd dau yn cynnwys y newidiadau a ganlyn :

- Caiff lletygarwch dan do ailagor
- Caiff gweddill y lletyau gwyliau agor (e.e. safleoedd gwersylla sydd â chyfleusterau a rennir) i aelodau aelwydydd unigol neu aelwydydd estynedig

- Caiff lleoliadau adloniant agor, gan gynnwys sinemâu, neuaddau bingo, aleau bowlio, canolfannau a mannau chwarae dan do, casinos, ac arcedau difyrion
- Caiff atyniadau dan do i ymwelwyr agor, gan gynnwys amgueddfeydd, orielau, atyniadau addysgol a threftadaeth, a safleoedd treftadaeth fel plastai
- Bydd rheol pedwar o bobl (hyd at 4 o bobl o 4 aelwyd), neu un aelwyd os oes mwy na 4 o bobl, ar gyfer ymgynnull mewn adeiladau sy'n cael eu rheoleiddio fel caffis
- Bydd y rheol chwech o bobl yn parhau yn yr awyr agored. Bydd cyfarfod dan do mewn cartrefi preifat yn dal i fod yn gyfyngedig i'r aelwyd estynedig yn unig (swigod penodedig).
- Bydd y terfynau ar gyfer gweithgareddau wedi'u trefnu yn cynyddu i 30 dan do a 50 yn yr awyr agored.
- Ceir cynnal derbyniadau priodas dan do ar gyfer hyd at 30 o bobl mewn adeiladau sy'n cael eu rheoleiddio.

I gael y cyngor, y canllawiau a'r deunyddiau diweddaraf i gadw eich staff a'ch cwsmeriaid yn ddiogel, ewch i:

https://llyw.cymru/aros-yn-ddiogel-yn-y-gwaith
https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy

# COVID-19: Rhestr Wirio ar gyfer Busnesau Twristiaeth a Lletygarwch

Mae canllawiau i fusnesau twristiaeth a lletygarwch i gadw gweithwyr ac ymwelwyr yn ddiogel yn ystod pandemig coronafeirws (COVID-19) ar gael yma:

https://llyw.cymru/diogelu-cymru-canllawiau-i-dwristiaeth-a-lletygarwch-html

Mae rhestrau gwirio wedi'u diweddaru ar gael i gefnogi'r Canllawiau ar gyfer busnesau Twristiaeth a Lletygarwch, sydd yn amlinellu'r mesurau allweddol y dylech eu rhoi ar waith i gadw eich staff, cwsmeriaid ac ymwelwyr yn ddiogel.

- Cadw Pellter Cymdeithasol
  https://bit.ly/3eD9mxU

- Hylendid
  https://bit.ly/3dSNQWL

- Cadw Cofnodion
  https://bit.ly/32OatFI
- PWYSIG: Mae'n hanfodol casglu manylion cyswllt ar gyfer pob aelod o grŵp, nid dim ond y prif gyswllt.

Mae Cerdyn Gweithredu Busnes hefyd ar gael ac mae'n rhoi gwybodaeth i chi am sut i gadw COVID-19 allan o'ch safle, pa gamau i'w cymryd pan fydd gweithiwr neu gwsmer yn profi'n bositif a sut y gallwch leihau lledaeniad COVID-19 yn eich busnes. Mae'r wybodaeth hyn hefyd wedi'i rannu fel canllawiau i swyddogion gorfodi gyda thimau Iechyd yr Amgylchedd a Thimau Rheoli Digwyddiadau mewn Awdurdodau Lleol i'w defnyddio wrth iddynt ymweld â busnesau lletygarwch. Ewch i:

https://bit.ly/3vot0Vm

# Llythyr at y sector economi ymwelwyr gan Dr Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol

Gweler y llythyr oddi wrth Dr Frank Atherton Prif Swyddog Meddygol/Cyfarwyddwr Meddygol, GIG Cymru at sylw sector yr economi ymwelwyr. Parthed: "Cynnal amgylchedd diogel o ran COVID yn yr economi ymwelwyr er mwyn diogelu staff a chwsmeriaid." Ewch i:

https://bit.ly/3tWzJ8F

# Y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig – An-Amaethyddiaeth Ar Agor

Mae y Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig – An-Amaethyddiaeth, sy'n cynnig cymorth ariannol i fusnesau bach sy'n arall-gyfeirio i weithgareddau an-amaethyddol, wedi agor ddoe 26 Ebrill 2021. Mae canllawiau sy'n egluro'r cynllun a'r mathau o brosiectau a allai fod yn gymwys am gymorth grant ar gael yma:

https://llyw.cymru/cynllun-buddsoddi-mewn-busnesau-gwledig-an-amaethyddiaeth

## Gwirfoddolwyr a phobl sy'n methu gweithio gartref yn gallu archebu cit hunan-brawf llif unffordd ar-lein

O ddydd Llun 26 Ebrill 2021 ymlaen, bydd gwirfoddolwyr a phobl sy'n methu gweithio gartref yn gallu archebu cit hunan-brawf llif unffordd a fydd yn cael ei ddanfon yn syth i'w cartref. Mae hunanbrofion llif unffordd hefyd ar gael i'w casglu o rai safleoedd profi ledled Cymru. Nid oes angen gwneud apwyntiad. Mae manylion ar gyfer archebu prawf a'r safleoedd casglu a'u hamseroedd agor ar gael yma:

https://llyw.cymru/cael-profion-llif-unffordd-covid-19-cyflym-os-nad-oes-gennych-symptomau

## Wythnos Dechnoleg Cymru | Wales Tech Week 21 – 25 Mehefin 2021

Mae Wythnos Dechnoleg Cymru yn darparu pum niwrnod o siaradwyr o'r radd flaenaf, gweithdai, sesiynau 'cynulleidfa gyda' unigryw a mwy. Mae'r ŵyl yn bwriadu arddangos sut mae technoleg yn effeithio, galluogi a gwella ein bywydau, i gyd o gysur ein cartref/swyddfa ein hunain. P'un ai ydych chi'n gweithio mewn technoleg newydd neu'n ei datblygu, sydd â diddordeb mewn sut y gall technoleg drawsnewid eich busnes neu ddim ond 'tech curious', mae gan Wythnos Dechnoleg Cymru rywbeth i bawb drwy ystod amrywiol o bynciau a gyflwynir drwy gydol yr wythnos. O deithio gofod i sicrhau buddsoddiad cychwyn busnes, cadwyn atal datgarboneiddio, mae Wythnos Dechnoleg Cymru yn arddangos ehangder ac arloesedd technoleg. I gael rhagor o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://technologyconnected.net/wales-tech-week/

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru